27 Hydref 2022

**Annwyl Bennaeth y Ganolfan**

Rydyn ni'n gobeithio bod dechrau'r flwyddyn academaidd newydd yn mynd cystal â phosib i chi, eich staff, a'ch dysgwyr. Cyn y gwyliau hanner tymor, roedden ni am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ein hymgynghoriad Dweud Eich Dweud a chyfres arholiadau mis Tachwedd.

**Dweud Eich Dweud ar gymwysterau TGAU y dyfodol**

Fel rydych chi'n gwybod, rydyn ni wedi lansio sgwrs genedlaethol i roi cyfle i bobl Cymru 'Ddweud Eich Dweud' ar gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru y dyfodol.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gydag athrawon, arbenigwyr pwnc a llawer o rai eraill i gyd-greu cynigion ar gyfer dylunio, cynnwys ac asesu set newydd sbon o gymwysterau TGAU. Rydyn ni am wneud yn siŵr y bydd y cymwysterau newydd hyn yn helpu eich canolfan chi i sicrhau llwyddiant y Cwricwlwm i Gymru ac i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

**Gadewch i ni siarad am gymwysterau TGAU – 16 Tachwedd**

Rydyn ni angen eich help chi i greu ymatebion gan athrawon, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr erbyn ein **dyddiad cau, sef 14 Rhagfyr 2022**. Ar 16 Tachwedd, byddwn ni'n ymweld â chanolfan ac rydyn ni am i chi fynd ati ar y diwrnod hwnnw i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Rydyn ni'n bwriadu rhannu lluniau o sesiynau gan ysgolion/colegau yn helaeth ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Dyma ddolen i becyn cymorth a fydd yn helpu'r trafodaethau, ynghyd â thestun ar gyfer cylchlythyrau rhieni/gofalwyr a chlip o ddysgwyr Blwyddyn 7 yn y lansiad yn Ysgol Uwchradd Llanisien. Rhowch wybod i ni am eich cynlluniau a thagiwch ni yn y gweithgaredd.

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Bydd eich adborth yn helpu i lunio'r gofynion dylunio terfynol y mae'n rhaid i CBAC a chyrff dyfarnu eraill eu dilyn wrth ddatblygu'r manylebau manwl ar gyfer y cymwysterau newydd hyn.

Mae'r ymgynghoriad yma'n un rhan o'n gwaith i ddiwygio'r ystod lawn o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed. Yn nhymor y gwanwyn, byddwn ni'n ymgynghori ar gynigion ar gyfer cymwysterau eraill a fydd yn dod at ei gilydd i ddarparu cynnig cydlynol a chynhwysol i bob dysgwr.

**Goruchwylio cyfres arholiadau TGAU mis Tachwedd 2022**

Mae pedwar cymhwyster TGAU yn cael ei arholi ym mis Tachwedd: Saesneg Iaith, Mathemateg - Rhifedd, Mathemateg a Chymraeg Iaith. Fel ym mis Tachwedd 2021, nid oes cyfyngiadau ar bwy sy'n gallu cael eu cofrestru ar gyfer yr arholiadau hyn.

Mae data cofrestru dros dro a gaiff ei gasglu gan CBAC yn rhoi syniad cynnar i ni o'r patrymau cofrestru ar gyfer pob cyfres arholi. Rydyn ni'n defnyddio'r data yma i helpu i gynllunio ein dull o oruchwylio'r dyfarniadau ac i ddehongli'r canlyniadau. Byddwn ni'n cyhoeddi ystadegau swyddogol ar gofrestriadau mis Tachwedd ar ddechrau mis Rhagfyr. Fe welwch chi'r wybodaeth yma yn yr adran cyhoeddiadau ar ein gwefan.

Fe wnaeth CBAC ryddhau gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer y gyfres hon ym mis Mehefin gyda'r bwriad o gefnogi dysgwyr i baratoi ar gyfer eu harholiadau.

Byddwn ni'n monitro sut mae ffiniau graddau yn cael eu pennu gan CBAC ar gyfer pob arholiad o fewn y gyfres hon er mwyn sicrhau bod y safonau'n briodol ac yn ystyried ein penderfyniad polisi ynghylch graddio ar gyfer haf 2023.

**Diogelwch Arholiadau**

Mae ysgolion a cholegau'n chwarae rhan allweddol wrth gynnal diogelwch papurau arholiadau ac mae'n bwysig bod eich staff yn dilyn y rheolau sydd wedi'u gosod gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) ar gyfer diogelwch papurau a chynnal arholiadau.

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn yr adran Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau (*Instructions for conducting examinations*) ar wefan y JCQ. Mae gan wefan CBAC hefyd ganllawiau defnyddiol ar beth i'w wneud os oes amheuaeth bod diogelwch wedi'i danseilio.

Mae gan CBAC ganllawiau ynglŷn â chynllunio wrth gefn sy'n darparu gwybodaeth am beth i'w wneud os bydd tarfu ar arholiadau mewn unrhyw ffordd. Rydyn ni'n eich cynghori i ymgyfarwyddo â chanllawiau CBAC a JCQ ac i sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Yn gywir

**Philip Blaker**
*Prif Weithredwr*